

## **HYSBYSIAD o Benderfyniadau cyfarfod hybrid y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 12 Rhagfyr, 2023**

Cyhoeddir yr Hysbysiad hwn am 5:00pm dydd Iau 14 Rhagfyr, 2023. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau 21 Rhagfyr 2023. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Gwener, 22 Rhagfyr, 2023.

**Yn bresennol:** Cynghorwyr Llinos Medi (Cadeirydd), Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Roberts, Dafydd R Thomas a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol:** Cynghorwyr Glyn Haynes a Derek Owen

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Neville Evans

(10.00 o'r gloch yb - 10.35 o'r gloch yb)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith</b> Pennaeth Democrataidd
PENDERFYNIAD	<b>PENDERFYNWYD</b> cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2024 ac Awst 2024, gyda'r newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Cryfhau</b> atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>4 Rhenti a Thaliadau Gwasanaethau Tai 2024/25</b> Pennaeth Gwasanaeth Tai
PENDERFYNIAD	<b>PENDERFYNWYD cymeradwyo:-</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cynnydd o 6.7% mewn rhent ar bob uned rhent cyffredinol yn unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru i'w gasglu dros 52 wythnos;</li> <li>• Cynnydd o 63c yr wythnos mewn rhent ar gyfer pob modurdy;</li> <li>• Bod y costau ffioedd gwasanaeth, fel y nodir yn adran 6.3 yr adroddiad, yn cael eu rhoi ar waith ymhlith bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol;</li> <li>• Gweinyddu'r 'Cynllun Cymorth Rhent', cynllun lleol i gefnogi tenantiaid sy'n talu eu rhent eu hunain.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	I gydymffurfio gyda chyhoeddiad Llywodraeth Cymru o gynnydd mewn lefelau rhent cymdeithasol.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

## EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>6 Gofal Ychwanegol a Chartref Preswyl Aethwy - Achosion Busnes</b> Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
PENDERFYNIAD	<b>PEDNERFYNWYD cymeradwyo:-</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y SOC/OBC ar gyfer Cynllun Cartref Gofal Preswyl/Gofal Ychwanegol Aethwy;</li> <li>• Cyflwyno'r SOC/OBC i Lywodraeth Cymru;</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dirprwyo awdurdodaeth i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymgynghoriad gyda'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio dros Wasanaethau Plant, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, Ieuenctid a Thai, y Dirprwy Arweinydd, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i addasu'r SOC/OBC os oes angen, os na fydd y newidiadau'n arwain at newidiadau materol (o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risg a niwed i drydydd parti);</li> <li>• Ymrwymiad i ariannu gofyniad Cyfalaf y Cyngor, tuag at y prosiect, drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Cymeradwyo'r Achosion Busnes, SOC/OBC ar gyfer Cartref Gofal Preswyl a Gofal Ychwanegol Aethwy.</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>